Mae cydymffurfio ag Egwyddorion Diogelu Data yn ofynnol yn ôl y gyfraith; mae hefyd yn gwneud synnwyr masnachol.

CANLLAW BUSNES

# Busnes a Diogelu Data

www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy | 03000 6 03000

Busnes Cymru Business Wales

UNDEB EWROPEAIDD EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Cynnwys

Tudalen

Cyflwyniad . . . 3

DEALL

Wyth o egwyddorion diogelu data . . . 4

Diogelu data ar-lein . . . 5

MABWYSIADU

Dechrau arni . . . 8

MANTEISIO

Beth ydy'r manteision busnes posib? . . . 9

Dilynwch yr awgrymiadau ardderchog hyn . . . 10

Y CAMAU NESAF . . . 11

"Drwy ddangos eich bod yn cwrdd â'r gofynion cyfreithiol ar-lein yn iawn, rydych yn tawelu meddwl eich cwsmeriaid, eich gweithwyr ac eraill fod eu data personol yn ddiogel yn nwylo eich busnes."

# Cyflwyniad

Gan fod technolegau digidol wedi datblygu dros yr ugain mlynedd diwethaf, mae Band Eang Cyflym Iawn wedi cyflymu'r broses o fabwysiadu technolegau cwmwl, storio data ar-lein a Meddalwedd fel Gwasanaeth. Y mae wedi dod yn bwysicach nag erioed i fod yn glir ynghylch pa ddata sydd gennych dan sylw, pam y cafodd ei gasglu, ble caiff ei storio, sut fydd yn cael ei ddefnyddio, a phryd dylid ei ddileu. Mae'n hanfodol felly bod cwmnïau'n ymwybodol o'r Ddeddf Diogelu Data a sut i gydymffurfio â hi. Mae'r canllaw hwn yn egluro'r prif egwyddorion.

Mae diogelu data'n ymwneud â *data personol,* gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn byw y gellir ei adnabod o'r wybodaeth: chi yn unigol, eich gweithwyr, darpar gwsmeriaid a'ch cwsmeriaid presennol, cysylltiadau busnes unigol, defnyddwyr, enwogion a phobl gyffredin, y nhw ydy *gwrthrychau'r data.* Efallai bydd pob mynegiant barn ynglŷn â rhywun yn ddata personol, yn ogystal â chyfeiriadau, rhifau cardiau credy a dyddiadau geni. Mae gwybodaeth o'r fath yn bwysig iawn mewn busnes, ar gyfer marchnata, gwerthiannau, rhwydweithio, cadw cofnodion a dadansoddi, ac at ddibenion eraill.

Gelwir y sefydliadau sy'n gyfrifol am ddefnyddio a rheoli eich data personol, yn cynnwys eich busnes yn *rheolyddion data,* â rhwymedigaethau yn ôl y gyfraith. Ar y llaw ar arall, sylwch fod gan fusnesau eraill sy'n meddu eich data personol â rhwymedigaethau atoch chi yn eich rôl fel *gwrthrych y data.*

# Wyth o Egwyddorion Diogelu Data

**Mae'r ddeddf yn cynnwys wyth o Egwyddorion Diogelu Data sy'n mynd i'r afael â'r holl agweddau'n ymwneud â chael, prosesu, defnyddio, storio a dileu data personol.**

Maent yn cynnwys gofynion bod angen i'r data personol gael ei brosesu'n deg a chyfreithlon, bod yn gywir, heb fod wedi'i gadw'n hirach nag sydd ei angen, a'i gadw'n ddiogel, drwy gyfrwng mesurau technegol a sefydliadol.

Mae diogelu data wedi'i reoleiddio ledled yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, yr EEA, sef yr Undeb Ewropeaidd ynghyd â Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy. Mae gan nifer o wledydd eraill ddeddfau'n ymwneud â diogelu data hefyd.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y Deyrnas Unedig, yr ICO, yn cynnal hawliau gwybodaeth er budd y cyhoedd, yn trafod diogelu data.

Mae'r ddeddf yn cynnwys wyth o 'Egwyddorion Diogelu Data'. Mae'r rhain yn nodi fod yn rhaid i ddata personol:

1. Gael ei brosesu'n deg a chyfreithlon
2. Gadw at ddibenion penodol a chyfreithlon
3. Fod yn ddigonol, perthnasol a nid yn eithafol
4. Fod yn gywir a chyfamserol
5. Fod wedi'i gadw ddim mwy na'r hyn sydd ei angen
6. Fod wedi'i brosesu yn unol â hawliau "Pwnc data" yr unigolyn
7. Fod wedi'i gadw'n ddiogel
8. Beidio â chael ei drosglwyddo at unrhyw wlad arall heb fod diogelwch yn ei le yn y lle cyntaf

**Mae cydymffurfio ag Egwyddorion Diogelu Data yn ofynnol yn ôl y gyfraith; mae hefyd yn gwneud synnwyr masnachol**

# Diogelu Data Ar-lein

**Bydd busnesau'n cael ac yn defnyddio data personol ar-lein drwy wefannau'n aml. Er enghraifft ynglŷn â chleientiaid unigol neu gan ddarpar gwsmeriaid, neu wrth ddefnyddio cwcis neu ddyfeisiadau olrhain eraill maent yn eu storio ar gyfrifiadur y defnyddiwr. O bosib byddent yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fel platfformau i brosesu a rhannu gwybodaeth bersonol.**



Rhaid rhoi gwybodaeth glir i ohebiaethau drwy e-bost ac ymwelwyr i wefannau am gasglu a defnyddio data personol. Dylai hysbysiadau preifatrwydd hawdd eu cyrraedd fod gael ar wefan y busnes egluro pa ddata personol a fydd yn cael ei gasglu a'i gadw, pam bod y data'n cael ei ddefnyddio, megis i farchnata nwyddau neu wasanaethau'r busnes, a pha un ai fydd y data'n cael ei rannu gydag asiantaethau gwirio credyd neu unrhyw drydydd parti arall am ba bynnag reswm. Rhaid darparu manylion cyswllt y rheolydd data.

Mae'n rhaid i ymwelwyr dderbyn telerau'r hysbysiadau preifatrwydd wrth ymweld â'r wefan am y tro cyntaf mewn modd cadarnhaol, a rhoi eu caniatâd pendant cyn i'w data personol gael ei gasglu a'i ddefnyddio. Mae'n rhaid iddynt fod â'r hawl i allu gwrthod a chlicio i ffwrdd o'r dudalen we.

Dim ond ychydig o eithriadau prin sy'n bodoli; felly efallai bydd negeseuon e-bost na ofynnwyd amdanynt yn cael eu hanfon at gwsmeriaid presennol sydd wedi prynu nwyddau neu wasanaethau tebyg yn flaenorol.

> "Mae'n rhaid i bob defnydd o ddata personol fod yn unol â'r Egwyddorion Diogelu Data; yn ôl yr angen ac yn deg, yn gywir ac yn y blaen. Mae rhwymedigaethau penodol pellach i'w gweld ar-lein."

# Diogelu Data Ar-lein

## Cwcis

Efallai bydd cwcis wedi'u gosod ar ddyfeisiadau defnyddwyr i ennyn gwybodaeth fasnachol, er enghraifft i adnabod y defnyddiwr, i olrhain analyteg a thracio ymddygiad. Yn yr un modd wrth gasglu data personol arall ar-lein, mae angen i'r hysbysiadau ddarparu gwybodaeth glir ar gyfer eu defnyddio, gydag esboniadau o ddibenion y cwcis yn y lle cyntaf, ac unrhyw fanylion os bydd y data sydd wedi'u gasglu'n cael ei rannu â thrydydd partïon.

Eto, dylid nodi manylion cyswllt y rheolydd data. Rhaid, bob tro, dderbyn drwy roi tic mewn blwch yn bendant neu drwy glicio eich bod yn derbyn, y tro cyntaf y bydd pob math o gwci yn cael ei lawrlwytho, fel bod y defnyddiwr â'r hawl i wrthod a gadael y safle heb roi'r cwcis ar waith o gwbl.

Mae ychydig o eithriadau prin, er enghraifft, fod cwcis yn gwbl angenrheidiol ar gyfer y gwasanaeth a ddymunir gan y defnyddiwr, a allai fod ar gyfer gweithgareddau basged siopa, neu ble mae gwybodaeth sy'n deillio o'r cwcis yn cael ei chyfuno a'i defnyddio at ddibenion ystadegol anhysbys yn unig.


## Y gosb am dorri'r ddeddf diogelu data

Mae'r deddfau ynghylch diogelu data yn cael gorfodi gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r llysoedd. Gall cosbau troseddol megis dirwyon neu garchariad gael eu rhoi i'r rhai hynny sy'n gwneud toriadau difrifol yn y data.

Efallai bydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cynnal ymchwiliad i gwynion gan wrthrych y data am doriadau yn y ddeddf diogelu data. Efallai bydd unigolion yn mynd ar ôl eu hawliau yn ymwneud â'u data personol drwy'r llysoedd.

# Diogelu Data Ar-lein

## Trosglwyddo data personol dramor



**Mae'n hawdd trosglwyddo data personol dramor ar lein. Fodd bynnag, mae egwyddor rhif wyth yn yr Egwyddorion Diogelu Data yn rheoleiddio anfon data personol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Mae'n rhaid cael amddiffyniad cyfreithiol priodol o fewn y wladwriaeth sy'n derbyn, oni bai fod gwrthrych y data wedi rhoi caniatâd neu fod disgwyliadau penodol eraill wedi'u bodloni.**

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cadarnhau fod gan rhai gwledydd dynodedig lefel derbyniol o ddiogelu, megis y Swistir a Chanada. Yn yr Unol Daleithiau, mae cyfundrefn wirfoddol i gwmnïau, sy'n cael ei hadnabod fel 'Safe Harbor' yn darparu amddiffyniad digonol ar gyfer data personol sy'n cael ei drosglwyddo o wledydd yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd at y cwmnïau hynny sy'n dewis cydymffurfio â'r rheolau.

Rhaid i bob trosglwyddiad arall o ddata personol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ddod o fewn un allan o nifer o eithriadau cyfreithiol a ganiateir, gan sicrhau fod y data yn aros yn ddiogel. Y prif eithriadau ydy pan fod gwrthrych y data wedi mynegi caniatâd gwybodus i'r trosglwyddiad, neu lle mae contract yn darparu diogelwch pwrpasol rhwng y rheolydd data a'r parti sy'n derbyn y data.

# Dechrau Arni

1

Cofrestrwch eich meddiant a'ch defnydd o ddata personol gyda'r Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

2

Datblygu a chyhoeddi polisi ar gyfer diogelu data. Edrychwch pa wybodaeth bersonol sydd ei angen ar eich busnes i feddiannu a defnyddio, a nodi gweithdrefnau ar gyfer ei gasglu, prosesu, defnyddio, mynediad a datgelu. Cofiwch gynnwys sut caiff ei gadw'n ddiogel.

3

Rhowch hysbysiad preifatrwydd addas ar eich gwefan, a safoni unrhyw droedyn perthnasol ar gyfer negeseuon e-bost.

4

Sefydlu systemau ar-lein o ganiatâd hyddysg at ddefnydd data personol ymwelwyr ac ar gyfer cwcis.

# Beth ydy'r Manteision Busnes Posib?

## YMDDIRIEDAETH

Bydd eich cwsmeriaid a'ch gweithiwyr yn gwerthfawrogi bod eich busnes yn delio gyda'u data personol yn ddiogel.

## YMGYSYLLTU

Drwy eich caniatáu i ddefnyddio eu data personol, bydd arweinwyr newydd yn ogystal â chysylltiadau a chwsmeriaid presennol â diddordeb gwirioneddol i feithrin perthynas barhaus gydag eich busnes.

## ARBED ARIAN

Byddwch yn defnyddio gwybodaeth bersonol gywir, ac ni fyddwch yn gwastraffu amser nac arian ar ddata wedi dyddio.

## CYDYMFFURFIAETH

Drwy gydymffurfio'n rhagweithiol gyda'r gofynion cyfreithiol byddwch yn gallu ymateb yn effeithlon i unrhyw ymholiad ynghylch data personol, arbed costau ac osgoi unrhyw dreuliau o orfod amddiffyn hawliau.

# DILYNWCH YR AWGRYMIADAU ARDDERCHOG HYN

## 1 Arwain yr awenau

Gwnewch apwyntiad lefel Bwrdd (gall fod yn chi) i gydnabod pa mor bwysig ydy gweithredu strategaeth diogelu data yn eich busnes.

## 2 Nodwch ofynion ychwanegol ar gyfer data sensitif

Caiff data sensitif penodol ei reoleiddio ymhellach, megis credoau crefyddol neu wleidyddol unigolyn, iechyd, euogfarnau troseddol ac ethnigrwydd. Gwiriwch nad oes yna ofynion arbennig yn eich sector busnes wrth ddefnyddio data personol, er enghraifft, iechyd, cyllid, marchnata neu wleidyddiaeth. Os oes gennych, gwneud yn siŵr eich bod yn cydymffurfio â hwy.

## 3 Edrychwch ar y mecanweithiau i gadw caniatâd

O bryd i'w gilydd pan fyddwch yn cyflwyno nwyddau a gwasanaethau newydd, ystyriwch sut ydych yn cadw caniatâd hyddysg, ac y bydd modd i chi ddarparu tystiolaeth o dderbyniad pe bai angen.

## 4 Darparu hyfforddiant diogelu data

Dylai eich staff gael eu hyfforddi mewn diogelu data, a dylid diweddaru'r hyfforddiant o bryd i'w gilydd, gan gynnwys y staff dros dro a rhan-amser.

## 5 Defnyddiwch wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Cyfeiriwch at wefan ddefnyddiol yr ICO os oes gennych unrhyw ymholiad ynglŷn ag unrhyw agwedd neilltuol o ddiogelu data.

## 6 Cynllunio diogelu data yn rhan o systemau

Ystyriwch ddiogelu data yn y cyfnod cynnar wrth gynllunio a rhoi systemau gwybodaeth, prosesau, nwyddau a gwasanaethau newydd ar waith. Gwerthuswch a rheolwch y peryglon sy'n cael eu cysylltu â data personol yn y cyfnod cynllunio.

## 7 Deall fod y ddeddf diogelu data a phreifatrwydd yn datblygu

Gwybod y diweddaraf, fel eich bod yn aros yn ymwybodol o'r newidiadau gerllaw sydd wedi'u fwriadu i gryfhau egwyddorion y ddeddf diogelu data, gan gynyddu atebolrwydd a rheoli preifatrwydd.

## Y CAMAU NESAF

1. Cofrestrwch i fod yn bresennol mewn Gweithdy Datblygu Busnes wedi'i ariannu'n llawn: **www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/digwyddiadau**

2. Trefnwch apwyntiad i weld Ymgynghorydd Buses a fydd yn eich helpu I greu cynllun gweithredu personol i dyfu'ch busnes: **www.business.wales.gov.uk/cy/cysylltwch-a-ni**

## CADWCH EICH BYS AR Y PWLS GYDA CYFLYMU BUSNESAU CYMRU

Gweld sut mae busnesau eraill yng Nghymru wedi ymelwa o Fand Eang Cyflym Iawn:
www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/straeon-llwyddiant-cyflym

Canfod faint allai'ch busnes chi arbed gyda'r cyfrifiannell arbedion:
www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/cyfrifwr-arbedion

Mae Canllawiau Busnes eraill a allai fod o ddiddordeb i chi yn cynnwys:
www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/canllawiau-busnes-cyflym-iawn

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf yn fisol ar ddatblygiad busnes, newyddion technoleg a digwyddiadau tanysgrifiwch i Daflen Newyddion Busnes Cymru:
https://public.govdelivery.com/accounts/UKWALES_CY/subscriber/new

Am ragor o wybodaeth ffoniwch 03000 6 03000 neu ymwelwch â:
www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy

Busnes Cymru Business Wales

UNDEB EWROPEAIDD EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Llywodraeth Cymru
Welsh Government